

# Minutes



## Cabinet

---

Date: Dydd Mercher, 11 Ionawr 2023

Time: 4.00 pm

Present: Councillors J Mudd (Cadeirydd), D Batrouni, J Clarke, D Davies, Y Forsey, D Harvey, J Hughes, L Lacey and S Marshall

---

### 1 Ymddiheuriadau dros Absenoldeb

Dim.

### 2 Datganiadau o ddiddordeb

Dim.

### 3 Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir.

### 4 Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Ymgynghoriad ar Opsiynau Twf a Gofodol a Chytundeb Cyflawni Diwygiedig

Cyflwynodd yr Arweinydd Gytundeb Cyflawni, sy'n nodi'r prosesau o baratoi cynlluniau, gan egluro'r cyfleoedd a'r dulliau ymgysylltu sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd yna ofyniad i barhau i adolygu'r Cytundeb Cyflawni, roedd angen adolygiad pan oedd paratoi'r cynllun yn mynd mwy na thri mis y tu ôl i'r llinell amser a gymeradwywyd.

Llithrodd yr amserlen arfaethedig ac roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gymeradwyo Cytundeb Cyflawni diwygiedig.

Roedd y rhesymau dros yr oedi yn ymwneud yn bennaf â materion recriwtio ond yn bwysig roedd llawer iawn o ansicrwydd ynghylch goblygiadau NCT Drafft 15 oedd â goblygiadau sylweddol i Gasnewydd fel a ddrafftwyd ar hyn o bryd. Er bod y mater yn parhau heb ei ddatrys, ni allai'r oedi gyda'r gwaith ar y CDLIN barhau mwyach.

Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio awdurdodiad ar gyfer cam nesaf yr ymgynghoriad ar y CDLI Newydd ym mis Ionawr 2023, ar Dwf ac Opsiynau Gofodol.

Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig, roedd angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol gyda LIC ar y diwygiadau a nodwyd eu cytundeb gyda'r diwygiadau. Roedd hyn yn golygu y byddai'r CDLIN yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol ym mis Chwefror 2026.

O ran goblygiadau ariannol, arweiniodd y materion staffio at danwariant yn ystod y flwyddyn bresennol ac roedd y ffigurau'n nodi, er gwaethaf yr oedi, y byddai'r CDLIN yn cael ei gyflawni o fewn cyllideb y prosiect.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Cynghorydd Clarke, yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai i ddweud ychydig eiriau:

Aeth y Cynghorydd Clarke ymlaen i ddweud mai'r hyn oedd yn allweddol oedd cyfraniad y Cyngor a gofynnodd pe bai'r penderfyniad yn mynd yn ei flaen, y dylai trigolion Casnewydd fod yn rhan o'r ymgynghoriad yn ogystal â rhanddeiliaid. Soniodd y Cynghorydd Clarke hefyd mai Cyngor gwranddo oedd Casnewydd. Gallai hyn newid Casnewydd ar gyfer y dyfodol a pho fwyaf o bobl oedd yn gysylltiedig, gallai hynny helpu gyda'r newid hwn.

#### Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Soniodd y Cynghorydd Davies am ddau o'r diwydiannau presennol yng Nghasnewydd; roedd SPTS eisoes wedi dechrau adeiladu eu safle ymchwil a datblygu a gweithgynhyrchu newydd sydd wedi'i leoli ym Mharc Phoenix. Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at eu tudalen we a'u datganiad i'r wasg, lle amlygwyd bod y cwmni'n ehangu yn Ne Cymru i fanteisio ar gronfa dalent ddeniadol y rhanbarth. Soniodd hefyd bod Casnewydd hefyd yn gartref i rai o brifysgolion a sefydliadau ymchwil mwyaf blaenllaw'r DU gyda chymwyseddau lled-ddargludyddion cryf a chysylltiadau diwydiant ar gyfer ymchwil gydweithredol. Yr ail gwmni oedd IQE, a oedd eisoes yn cynhyrchu lled-ddargludyddion ac amlygodd y Cynghorydd Davies hefyd fod eu Prif Swyddog Gweithredol wedi ymrwymo i arloesi parhaus ac yn darparu atebion a helpodd i yrru'r diwydiant lled-ddargludyddion ymlaen a darparu technolegau a fyddai'n cael effaith ystyrlon ar ein byd. Helpodd y buddsoddiad a'r ehangu hwn yng Nghymru i barhau i ddatblygu prosesu haenellau ar gyfer y diwydiannau seciwlar twf uchel, roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu 5G, cerbydau trydan, electroneg defnyddwyr, canolfannau data, dyfeisiau meddygol a llawer mwy. Roedd hwn yn gyfle i'n trigolion roi eu mewnbwn. Dyma ddechrau rhywbeth cyffrous i Gasnewydd.
- Ategodd y Cynghorydd Harvey sylwadau'r Cynghorydd Clarkes gan ychwanegu y bu'n daith hir a'i fod yn gobeithio y byddai preswylwyr yn rhoi eu mewnbwn, felly yr Aelod Cabinet dros Gymunedau a Llesiant a chefnogodd yr adroddiad yn llawn.
- Cytunodd y Cynghorydd Batrouni hefyd gyda'r Cynghorydd Clarke a sylwadau'r Arweinydd. Roedd angen ymgynghori'n gynnar ac roedd yn bwysig felly dechrau meddwl am y materion hyn. Aeth yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol ymlaen i ddarllen ystadegau o'r cyfrifiad diwethaf. Ynghyd â Chaerdydd, Casnewydd oedd â'r gyfradd uchaf o ddisgyblion fesul aelwyd yng Nghymru gyfan. Casnewydd oedd â'r dwysedd uchaf ond un ar ôl Caerdydd. Yn ogystal, roedd 28% o boblogaeth Casnewydd yn gweithio gartref. Roedd bron 50% o bobl yn teithio o fewn 10KM i'w gweithle. Gyda'r ffigurau hyn mewn golwg, croesawodd y Cynghorydd Batrouni yr ymgynghoriad a'i gefnogi.
- Soniodd y Cynghorydd Hughes ei fod wedi penderfynu symud i Gasnewydd 35 mlynedd yn ôl, ac yn ystyried mai Casnewydd oedd y ddinas sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Roedd angen tai fforddiadwy i annog pobl i symud i'r ddinas. Sylwodd y cyfryngau hefyd ar y gwelliannau yng Nghasnewydd, gan gynnwys datblygu glan yr afon, a'r brifysgol. Roedd rhaglenni marchnad ac adfywio cyson yn y DU yn cysylltu â Chasnewydd. Roedd gan Gasnewydd hefyd y gallu i gynnal cysylltiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Roedd gennym y Ganolfan Gynadledda Ryngwladol (ICC) yn ogystal â chael ein galw'n Ddinas y Porth ac yn mynd i fod yn ddinas gysylltiedig yn fuan. Hawdd oedd beirniadu'r ddinas ar ôl blynyddoedd o gynt. Roedd gan Gasnewydd orffennol ond roedd ganddi ddyfodol disglair hefyd ac roedd pobl yn dewis dod i Gasnewydd i fyw, fel y gwnaeth y Cynghorydd Hughes. Roedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yn gobeithio y byddai pobl sy'n byw yng Nghasnewydd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

- Ailadroddodd y Cynghorydd Forsey y sylwadau uchod mai cyngor gwranddo a Chyngor tryloyw oedd Casnewydd a'i bod yn bwysig ein bod hefyd yn gyngor gwyrdd. Rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) oedd yr Arfarniad Cynaliadwyedig Integredig (ACI), roedd hyn yn cynnwys asesu amgylchedd strategol a lles cenedlaethau'r dyfodol. Byddai'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) yn diffinio llain las a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai'n caniatáu datblygu, felly byddai amddiffyniad cryf i'r llain las, a oedd yn bwysig i'n hardaloedd gwyrdd. Er bod y Cyngor yn croesawu twf ac yn cadw Casnewydd mor gynaliadwy â phosibl, byddai'r CDLIN yn darparu hyn.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig darganfod beth oedd barn y preswylwyr drwy gymeradwyo'r ymgynghoriad. Roedd hwn yn gam anffurfiol a nodwyd Casnewydd fel ardal dwf genedlaethol, sef haen uchaf o gynllun datblygu at ddibenion cynllunio yng Nghymru. Roedd hyn yn nodi'r fframwaith ar gyfer ein trafodaeth ac roedd yn bwysig bod pobl yn cael cyfle i gyflwyno eu barn a chroesawu'r cyfle i annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn ymgynghoriad.

### **Penderfyniad:**

#### Cabinet

1. Cymeradwyo'r papur Opsiynau Twf a Gofodol i'w gymryd trwy ymgynghoriad anffurfiol gan swyddogion.
2. Cymeradwyo parhau i baratoi'r CDLIN yn unol â'r diwygiadau i'r Cytundeb Cyflawni a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## **5 Porth y Gorllewin**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i gydweithwyr. Sefydlwyd Partneriaeth Porth y Gorllewin ym mis Tachwedd 2019; partneriaeth strategol a oedd â'r nod o ddarparu pwerdy economaidd ar hyd coridor yr M4 a'r M5, gan ysgogi twf ar ddwy ochr Afon Hafren. Fel un o bum dinas, roedd Casnewydd yn chwaraewr allweddol yn llwyddiant y bartneriaeth ac yn mynd i elwa ar y manteision a ddaw yn sgil mwy o gydweithio. Fel partneriaeth, roedd bron i 4.4 miliwn o breswylwyr, tua 160,000 o fusnesau ac oddeutu 2.1 miliwn o swyddi. Fe wnaethon ni hefyd fwynhau cysylltedd rhagorol â thraffyrdd a ffyrdd mawr, dau faes awyr a phorthladdoedd dŵr dwfn.

Darparwyd y diweddariad diwethaf ym mis Chwefror 2022 ac ers hynny roedd y bartneriaeth yn brysur yn datblygu ac yn ymgorffori blaenoriaethau a ffyrddau gwaith. Fel Is-gadeirydd y Bartneriaeth, roedd yr Arweinydd yn falch o'r ffordd yr oedd y bartneriaeth yn tyfu ac yn aeddfedu a'r cynnydd gwirioneddol oedd yn cael ei wneud tuag at gyflawni ymrwymadau.

Roedd yr Arweinydd yn falch o adrodd bod Prosbectws newydd wedi'i lansio a nododd bum cenhadaeth, a phob un ohonynt yn ceisio sicrhau mwy o dwf rhanbarthol yn ogystal â chydabod yr angen i ddatgarboneiddio ein heconomi.

Y genhadaeth gyntaf oedd tyfu'r economi ranbarthol o £34 biliwn trwy gynyddu cynhyrchiant o fewn y rhanbarth. Gwyddom fod Porth y Gorllewin eisoes yn gartref i dros 55% o fusnesau twf uchel y DU, gan gynnwys ein clwstwr lled-ddargludyddion ein hunain yng Nghasnewydd, ond gyda'n gilydd roedd lefel cynhyrchiant yn is na chyfartaledd y DU. Roedd yn amlwg bod angen pontio'r bwloch hwn er mwyn sicrhau bod y rhanbarth yn cyflawni, a gobeithio, yn rhagori ar ei botensial. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda chadwyni cyflenwi a chysylltu busnesau i'w gwneud yn fwy gwydn ac effeithlon.

Yr ail genhadaeth oedd tyfu masnach ryngwladol ac allforion o £4 biliwn. Gyda'n cysylltedd rhagorol a'n hygyrchedd i fathau amfoddol o drafnidiaeth, roedd Casnewydd yn borth rhyngwladol oedd yn gallu sicrhau mynediad uniongyrchol i farchnadoedd rhyngwladol. Roedd gennym frand byd-eang i'w gynnig a allai arwain at fwy o fuddsoddiad a mwy o allforion i'n busnesau.

Roedd y drydedd genhadaeth yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio a dod yn arweinydd bydeang mewn ynni gwyrdd. Roedd gennym yr holl asedau craidd sydd ar gael i ni, gan gynnwys solar, llanw a gwynt. Mae gan Aber Afon Hafren ar ei ben ei hun y potensial i gyfrannu hyd at 7% o anghenion ynni'r DU. Wedi ei gyfuno â'r rhagoriaeth oedd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â hydrogen yn y rhanbarth, roeddem yn dechrau gweld gwir botensial cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Byddai hyn yn drawsnewidiol i ddiwallu ein hanghenion ynni yn y dyfodol.

Nod y bedwaredd genhadaeth oedd gwella cysylltedd rhwng pob busnes a chymuned ar draws y rhanbarth. Roedd yn bwysig i bobl allu teithio i gael anghenion sylfaenol fel tai, gwaith ac addysg. Ar hyn o bryd roeddem yn edrych ar gysylltedd rheilffyrdd a sut y gallwn uno a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau sy'n deillio o welliannau i Brif Linell y Great Western a chynllun Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Roedd y genhadaeth derfynol yn cydnabod pwysigrwydd arloesi a'r angen i gefnogi a thyfu uwch glystyrau yn ein sectorau gwerth uchel.

Er mwyn cyflawni'r ymrwymadau hyn, roedd y bwrdd partneriaeth bob amser yn chwilio am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r rhanbarth a hyrwyddo'r cyfleoedd oedd yn bodoli. Cynhaliwyd Cynhadledd Porth y Gorllewin gyntaf ar 8 Mawrth y llynedd yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru Casnewydd (CGRC) a chafodd dderbyniad da. Cynhaliwyd Cynhadledd Ddatblygu ym mis Tachwedd ym Mryste ac roedd gan y bartneriaeth bresenoldeb hefyd yn Fforwm Buddsoddi a Seilwaith Eiddo Tiriog y DU hefyd. Roedd cael presenoldeb mewn digwyddiadau masnach rhyngwladol yn helpu i godi ymwybyddiaeth o Gasnewydd a Phorth y Gorllewin ehangach ac yn rhoi cyswllt â buddsoddwyr na fyddai gennym fel arall.

O ran llywodraethu, diweddarodd y bartneriaeth ei Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd i sicrhau bod cylch gorchwyl y bwrdd yn parhau i fod yn gyfredol ac yn briodol. De Swydd Gaerloyw oedd y corff atebol am y bartneriaeth a staff yr ysgrifenyddiaeth o hyd.

Ariannwyd Porth y Gorllewin yn bennaf gan daliad capasiti gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ac mae £3 miliwn wedi'i sicrhau am y tair blynedd nesaf. Talwyd cyfraniad ariannol blyneddol o £10,000 gan bartneriaid yr Awdurdod Lleol i gefnogi gwaith yr Ysgrifenyddiaeth.

#### Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Croesawodd y Cynghorydd Davies y ffaith ein bod yn rhan o borth y gorllewin ac yn un o'r wyth dinas yr oedd eu hamcanion yn rhan o ddyfodol tecach glanach. Roedd cyflawni hyn i 4.4M o bobl yn gynhwysol ac yn helpu tuag at y nod o ddyfodol wedi'i ddatgarboneiddio. Anogodd y Dirprwy Arweinydd breswylwyr i ymweld â'r wefan, sy'n nodi'r uchelgais ar gyfer Porth y Gorllewin. Roedd yna anogaeth hefyd i'r datblygiad i'r strategaeth ynni ranbarthol fod yn garbon niwtral erbyn 2050. Roedd y Cynghorydd Davies hefyd am nodi ei fod yn dangos pa mor dda yr oeddem yn gweithio yng Nghasnewydd i gyflawni agenda carbon niwtral erbyn 2030 a oedd yn arfer da, a byddai hyn yn bwydo i mewn i Borth y Gorllewin.
- Roedd y Cynghorydd Hughes a oedd yn gweithio ar grwpiau ranbarthol yn y ddinas eisiau cydnabod rôl yr Arweinydd wrth feithrin partneriaethau gyda'r rhanbarth a'r effaith sylweddol yr oedd yn ei chael ar wella'r Ddinas. Er ei bod yn fenter ranbarthol, roedd Casnewydd wedi chwarae ei rhan ac yn elwa o'r straeon llwyddiant hyn. Roedd hefyd yn hyrwyddo ein dinas o fewn y rhanbarth a byddai'r penderfyniadau a wnaethom yn cael effaith sylweddol. Felly, diolchodd y Cynghorydd Hughes i'r Arweinydd am ei rôl.
- Soniodd y Cynghorydd Marshall fod Casnewydd yn aelod pwysig yn ranbarthol, yn eistedd rhwng Cymru a Lloegr. Roedd gan Gasnewydd sîn artistig fywiog ac roedd

ganddi safle gwych yn ddaearyddol. Roedd yn gyfle i edrych ar yr hyn y gallem ei gyflawni ar gyfer y bartneriaeth ac roedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yn edrych ymlaen at weld y bartneriaeth ranbarthol yn datblygu Casnewydd gyda'r prosiectau cyffrous hyn. Ateggodd y Cynghorydd Marshall hefyd sylwadau'r Cynghorydd Hughes ei bod yn dda cael yr Arweinydd yn cynrychioli llais cryf i'r ddinas.

- Ychwanegodd y Cynghorydd Batrouni, fel cynghorydd newydd a phreswlydd yng Nghasnewydd, fod gan Gasnewydd naws negyddol ac roedd yn groesawgar clywed ei gydweithwyr yn y Cabinet yn sôn am yr holl bethau cadarnhaol am Gasnewydd. Roedd hefyd yn bwysig cofio mai Casnewydd oedd y porth i Gymru gyda chysylltiadau â Llundain, y porthladd, a'r hanes Rhufeinig, roedd cymaint o bethau'n mynd yn dda i ni. Roedd gan Gasnewydd y potensial mwyaf hefyd i gyflawni nodau ac amcan prospectws Porth y Gorllewin. Roedd ein huchelgais hefyd i fod yn Ddinas ddata hefyd yn dangos yr hyn yr oeddem yn mynd i'w gyflawni. Roedd gan Gasnewydd yr asedau a'r bobl yn ogystal â'r arweinyddiaeth ac yn dangos i ddinasoedd yn y bartneriaeth yr hyn y gallem ei gyflawni.
- Diolchodd y Cynghorydd Harvey hefyd i'r Arweinydd am hyrwyddo Casnewydd ac ategodd mai Casnewydd oedd y porth i Gymru a'i fod wrth ei fodd â Chasnewydd, roedd yn lle gwych i weithio a magu teulu.
- Ateggodd y Cynghorydd Lacey sylwadau cydweithwyr gan ychwanegu bod Casnewydd yn ddinas borth i lawer o fusnesau gyda safle strategol rhwng dau faes awyr a phorthladdoedd dŵr dwfn ac roeddem yn gweld busnesau technolegol yn sefydlu yn ochr orllewinol y ddinas. Roedd CGRC yn dod â chynadleddau blaenllaw i'r ddinas. Roedd yn gyffrous gweld twf gyda manwerthwyr annibynnol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd yna hefyd swyddi oedd yn talu'n dda yn denu pobl i ddod i fyw yng Nghasnewydd.

### **Penderfyniad:**

Diweddarwyd y Cabinet ar gynnydd partneriaeth Porth y Gorllewin a'r manteision posibl i Gasnewydd.

## **6 Pwysau Allanol NCC - Costau Byw**

Y neges bwysig y mae'r Arweinydd am ei hanfon mewn perthynas â'r adroddiad uchod oedd annog preswylwyr a oedd yn ei chael hi'n anodd, i gysylltu â'r Cyngor a allai ddarparu cymorth a chefnogaeth i bobl dalu eu biliau a cheisio eu hatal rhag mynd i unrhyw anhawster ariannol.

Fel Cadeirydd Casnewydd yn Un roedd yr Arweinydd yn hyderus o bartneriaethau cryf y Cyngor ledled y ddinas, ac yn ei dro, ymrwymiad ac angerdd yr holl bartneriaid i wneud popeth o fewn eu gallu yn yr uwchgynhadledd costau byw a gynhaliwyd ym mis Tachwedd.

Parhaodd swyddogion y Cyngor i hwyluso digwyddiadau yn y gymuned ledled y ddinas gydag amrywiaeth o bartneriaid i roi cyngor ac arweiniad ar y cymorth sydd ar gael o ffynonellau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â chefnogi mentrau Llywodraeth Cymru gan gynnwys manau cynnes a Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi – roedd gan bob un gyfrifoldeb i gyfeirio preswylwyr i'r fenter hon.

Lansiodd Casnewydd ei manau cynnes ym mis Rhagfyr ac roedd y cyngor yn darparu saith lle cynnes yn ei adeiladau ei hun, o dan stiwardiaeth y Cynghorydd Harvey, yr Aelod Cabinet dros y Gymunedau a Lles. Roeddem yn gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a oedd ar hyn o bryd yn hwyluso naw arall, gyda thri arall yn lansio y mis hwn. Roedd y cyngor yn gweithio gyda GAVO i ddarparu cyllid i gefnogi rhedeg manau cynnes a datblygu

cynigion newydd gyda ffocws penodol ar ardaloedd nad oedd yn cael eu gwasanaethu'n dda ar hyn o bryd. Gellir dod o hyd i wybodaeth lawn ar wefan y cyngor.

Parhaodd cydweithwyr o bob rhan o'r cyngor i gefnogi pobl drwy'r Cynllun Cartrefi i Wcráin a Thîm Uwch-noddwyr Cymru. Roeddem mewn cyfnod pan oedd y ddau gynllun yn wynebu risg sylweddol wrth i'r trefniadau cynnal cychwynnol ddod i ben ac roedd y cyngor yn aros am gadarnhad a fyddai gwestai llety cychwynnol, a gaffaelwyd drwy'r cynllun uwch-noddwyr, yn cael eu hymestyn o fis Mawrth 2023. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd llywodraeth y DU newidiadau i'r drefn ariannu. Ni fyddai'r taliadau cymorth o £10.5k yn cael eu hymestyn a byddai taliadau ar gyfer newydd-ddyfodiaid yn cael eu gostwng i £5.9K. Byddai taliadau i ddarparwyr yn cynyddu o £350 y mis i £500 y mis ar ôl blwyddyn o gynnal. Byddai Awdurdodau Lleol yn Lloegr hefyd yn cael mynediad at gronfa gwerth £500 miliwn i brynu llety i bobl o Wcráin, ond ni chafodd hyn ei ymestyn i wledydd datganoledig.

#### Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Diolchodd y Cyngorydd Harvey i swyddogion am roi'r manau cynnes ar waith mor brydlon.
- Ychwanegodd y Cyngorydd Davies fod y ddogfen yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ysgolion o glybiau brecwast, banciau bwyd a banciau gwisg ysgol. Tynnodd y Dirprwy Arweinydd sylw hefyd at y diolch am athrawon a oedd yn creu pecynnau bwyd ar gyfer teuluoedd ac yn dosbarthu i'r teuluoedd hynny y nodwyd eu bod fwyaf mewn angen, yn enwedig yn ystod y Nadolig, gan ddarparu prydau Nadolig. Roedd y Cyngorydd Davies yn ddiolchgar bod staff wedi cymryd yr amser i wneud hyn.
- Roedd y Cyngorydd Hughes yn ymweld yn rheolaidd ag eglwys gymunedol yng Nghaerllion a ffurfiodd brosiect o'r enw Isca Haven ym mis Tachwedd. Roedd y prosiect yn cefnogi pobl yn y gymuned mewn angen. Ni fyddai hyn wedi digwydd heb y partneriaethau cryf yn y gymuned, yr eglwys, banciau bwyd a'r Cyngor. Roedd y cyfuniad o gymorth i'r grŵp ac roedd yn bwysig felly pwysleisio mai ymdrech tîm oedd yn gwneud gwahaniaeth. Diolchodd yr Aelod Cabinet i bawb a ddaeth yn rhan o'r prosiect.

Amlygodd yr arweinydd elfen bwysig hyn a'i bod hefyd yn bwysig cydnabod rôl yr aelodau etholedig o fewn eu wardiau.

- Soniodd y Cyngorydd Marshall ei bod yn wych gweld aelodau'r gymuned, gan gynnwys busnesau, staff a phreswylwyr yn helpu dros gyfnod y Nadolig ac yn cwrdd a chyfarch pobl. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet hefyd na ddylai preswylwyr fod â chywilydd i gysylltu â'r Cyngor os oedd angen cymorth arnynt. Roedd cysylltwyr cymunedol hefyd ar waith i roi cyngor a darparwyd manau cynnes, daeth y rhain â phobl unig at ei gilydd i ffurfio cyfeillgarwch yn y gymuned. Roedd staff yr ysgol hefyd yn gymorth enfawr yn y gymuned yn ogystal â staff mewn hybiau lleol.
- Ychwanegodd y Cyngorydd Clarke ei bod yn anodd i Gasnewydd a diolchodd i'r Arweinydd am ei chefnogaeth. Ategodd yr Aelod Cabinet hefyd sylwadau'r Cyngorydd Marshall, os oedd preswylwyr yn poeni ac angen help, bod y Cyngor yno i'w cefnogi ac i ofalu amdanynt.
- Cyfeiriodd y Cyngorydd Batrouni at yr effaith a gafodd yr argyfwng costau byw ac adleisio sylwadau cydweithwyr ynghylch partneriaethau cymunedol. Trafodwyd yr atebion hirdymor yn yr eitemau agenda blaenorol a byddai'r eitemau blaenorol hyn yn diogelu rhag adegau fel hyn yn ein heconomi ac yn ein gwneud yn fwy gwydn.

Diolchodd yr arweinydd i'r holl gydweithwyr am roi o'u hamser i ystyried a darllen yr adroddiad. Adlewyrchodd yr Arweinydd hefyd ar y cyfraniad a wnaeth swyddogion a'u hymrwymiad ar draws yr awdurdod cyfan. Rhoesant eu hamser eu hunain i gefnogi

preswylwyr Casnewydd ac roedd ganddynt enghreifftiau gwych lle'r aethant y tu hwnt i'r disgwyl i gefnogi preswylwyr. Roeddem yn ffodus bod swyddogion wedi ymrwymo'n llwyr i wasanaeth cyhoeddus i ddarparu ar gyfer pobl Casnewydd.

**Penderfyniad:**

Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad ar weithgarwch y Cyngor i ymateb i'r ffactorau allanol ar gymunedau, busnesau a gwasanaethau cyngor Casnewydd.

**7 Rhaglen Waith**

Hwn oedd yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Dylid symud derbyn y rhaglen wedi ei diweddaru.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y rhaglen waith.

The meeting terminated at Time Not Specified